



PARATOI AR GYFER RECRIWTIO – LLYFR LLWYD / GWEITHREDOL LLAWN AMSER (AMSER CYFLAWN) A ROLAU AR ALWAD – YSTAFELL RHEOLI

Llyfr Llwyd / Gweithredol – Rolau Llawn Amser (Amser Cyflawn) ac Ar Alwad

Pryd bynnag y nodir swydd wag Llyfr Llwyd / Gweithredol, bydd y Rheolwr Ardal sy'n gyfrifol am Ymateb yn ymgynghori â'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth i benderfynu a ddylid llenwi'r rôl wag a sut y dylid llenwi'r rôl wag.

Pryd bynnag y nodir rolau Llyfr Llwyd / Gweithredol Llawn Amser (Amser Cyflawn) (parhaol a dros dro) ar lefel Rheolwr Criw neu uwch, dylid cyfeirio at y [Polisi Recriwtio i Rolau Gweithredol – cliciwch yma](#).

Os rhoddir cymeradwyaeth gychwynnol i recriwtio ar gyfer Diffoddwyr Tân Llawn Amser (Amser Cyfan) a/neu Ddiffoddwyr Tân Prentis, bydd y Rheolwr Ardal sy'n gyfrifol am Ymateb yn ymgynghori â'r Bwrdd Adnoddau Sefydliadol (ORC) i ystyried y gofynion priodol ar gyfer ymgyrch recriwtio. Rhoddir ystyriaeth i gydweithio â gwasanaethau tân ac achub eraill Cymru.

Mae'r Bwrdd Adnoddau Sefydliadol hefyd yn ystyried recriwtio Diffoddwyr Tân ar alwad, ac mae hyn yn cael ei wneud ar gylch parhaus, gyda gorsafoedd yn cael eu blaenoriaethu yn ôl eu gofynion gweithredol.

Rheoli

Pryd bynnag y nodir swydd wag o fewn Yr Ystafell Rheoli, bydd y Tîm Rheoli yr Ystafell Rheoli yn ymgynghori â'r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth i benderfynu a ddylid llenwi'r rôl wag a sut y dylid llenwi'r rôl wag.

Mae'r broses recriwtio a dethol yn cynnwys nifer o gamau sy'n flaengar.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau gwybodaeth sy'n cwmpasu'r maes pwnc hwn; mae dolenni i'r holl ddogfennau ar gael trwy glicio yn ôl i'r hafan.

Os daw unrhyw hepgoriadau neu wallau i'r amlwg o ran cynnwys y gyfres hon o ddogfennau, gwahoddir darllenwyr i gysylltu â policy.development@tangogleddcymru.llyw.cymru gyda'u hadborth.

Argymhellir adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd; fodd bynnag, efallai y bydd angen ei adolygu'n gynharach yng ngoleuni unrhyw newid rheoleiddiol sy'n dod i rym yn y cyfamser.

Perchennog (Adran)	Adnoddau Dynol	Fersiwn	1.0
Adolygwyd ddiwethaf gan (deiliad post)	Pennaeth Adnoddau Dynol	Dyddiad adolygu diwethaf	7 ^{fed} Rhagfyr 2023
		Dyddiad adolygu a argymhellir	7 ^{fed} Rhagfyr 2026